

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher, Chwefror 1^{af}, 2022 am 6. 30 yh

Preseanol

Cynghorwyr Mrs K. D. L. Davies Mrs J. E. Collins R. A. Davies
 Mrs L. Latham Mrs C. Thomas

Ymddiheuriadau

Cynghorydd I. Rh. Llewelyn

1040.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cymerodd Mrs K. D. L Davies y Gadair a llywyddodd ar y cyfarfod.

1041.

Datganiadau o Fuddiant

Roedd yr Aelodau wedi datgan buddiant yn yr amrywiol fudiadau y maent yn gysylltiedig â nhw, ac nid oeddent wedi cymryd rhan yn y trafodaethau a ddilynodd neu chwaith wedi pleidleisio ar y ceisiadau hyn. Llofnodwyd copïau o'r ffurflenni datgan, i'w cadw gan y Clerc.

Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

Mrs Ll. Latham Yn cael ei chyflogi gan y Grŵp Cylch Meithrin

1042.

Ceisiadau am gymorth ariannol

a) Yn unol â Chofnod 693/95, aeth y Pwyllgor ati i ystyried y ceisiadau canlynol am gymorth ariannol, a phenderfynwyd argymell i'r Cyngor fel a ganlyn:

Ceisiadau cyffredinol a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 137 ac Adran 145

Enw'r mudiad

**Swm a
argymhellir**

Grŵp babanod Little Acorns, Saron	£300
Dawnsywyr Gwerin Penrhyd	£150
Cylch Meithrin Penygroes	£300
Clwb Pensiynwyr Henoed Penygroes	£300
Glo Man	£200
Cymdeithas Rheini, Athrawon a Ffrindiau Ysgol y Blaenau	£350
Cylch Meithrin Plant Bach y Blaenau	£300

Ceisiadau oddiwrth neuaddau pentref, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 19

Neuadd Lesiant Penygroes	£900
Cymdeithas Lesiant Gymunedol Caerbryn	£700

Ceisiadau i gynnal a chadw manau chwarae, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 19.

Dim ceisiadau.

Arall:

Gwrthodwyd cais oddiwrth Glwb Rygbi Penybanc am gefnogaeth tuag at brosiect solar oherwydd cytunwyd ni ddylai'r Cyngor gael ei ystyried yn brif gyllidwr grant o ran dibenion cyfalaf.

Ceisiadau i gynnal a chadw claddfeydd, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 214

Calfaria, Capel y Bedyddwyr, Penygroes	£300
Eglwys Methodistiaid Calфинаidd Capel Hendre	£300
Teml Apostolaidd Penygroes	£300

1043.

I ystyried tâl gosod eiddo yn 2022/2023

Argymhellwyd y dylid codi'r ffioedd isod am y cyfnod 1/4/2022 i 31/3/2023:

Clwb Pêl-droed Ieuentid Saron - £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r cae chwarae a'r cyfleusterau ym Mharc Saron.

Clwb Bowlio Llandybie - £3000 y flwyddyn am ddefnyddio'r grîn bowlio a chyfranaid o £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r pafiliwn.

Clwb Tennis Llandybie – £200 y flwyddyn a chyfranaid o £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r pafiliwn.

Bydd yr Ardaloedd Chwarae Aml Bwrpas yng Nghapel Hendre, Llandybie a Phenygroes yn parhau yn ddi-dâl at defnydd y cyhoedd.

1044.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.00 yh.